**COFNOD O WEITHGAREDDAU PROSESU AR GYFER AELOD ETHOLEDIG WRTH BROSESU DATA PERSONOL YN RHINWEDD EI RÔL YN RHEOLWR DATA, WRTH FYND I'R AFAEL Â CHEISIADAU GAN ETHOLWYR AC YMATEB IDDYN NHW (GWAITH ACHOS)**

| | |
|---|---|
| **Enw a manylion cyswllt y Rheolwr** | David Evans<br><br>C/o Y Gwasanaethau Democrataidd CBSRhCT<br>Y Pafiliynau<br>Cwm Clydach<br>Tonypandy<br>CF40 2XX<br><br>E-bost: David.Evans@rctcbc.gov.uk |
| **Enw a manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data** | Ddim yn berthnasol |
| **Pwrpas y prosesu** | Cyflawni gwaith achos ar ran etholwyr unigol yn fy ward (mynd i'r afael ag ymholiadau, ac ymateb iddyn nhw). |
| **Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data** | **Data personol:**<br>• Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr.<br><br>**Data Categori Arbennig**<br>• Erthygl 9 (g) – prosesu sy'n angenrheidiol am resymau er budd sylweddol i'r cyhoedd, ar sail cyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth: DPA2018, Atodlen 1, Rhan 2 (23 a 24)<br><br>**Data am euogfarnau troseddol**<br>• Erthygl 10 – dim ond dan reolaeth awdurdod swyddogol y caiff data personol sy'n ymwneud ag euogfarn droseddol a throseddau ei brosesu, neu lle mae prosesu wedi'i awdurdodi gan gyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth: DPA2018, Atodlen 1, Rhan 2 (23 a 24). |
| **Disgrifiad o gategorïau testunau'r data** | Caiff data personol ei brosesu am yr unigolyn sy'n cael ei gynrychioli.<br><br>Mae modd prosesu data personol hefyd am yr unigolion y bydda i'n dod i gysylltiad â nhw, yn ystod fy ymholiadau. Mae'r unigolion yn debygol o amrywio yn ôl natur y gŵyn neu'r pryder, a'r bobl mae rhaid imi drafod y mater â nhw. Mae'n bosibl y bydd y rhain yn cynnwys:<br><br>• aelodau'r teulu, perthnasau, gwarcheidwaid a phobl eraill sy'n gyfarwydd i'r person rwy'n cynrychioli eu gwybodaeth bersonol.<br>• adrannau a gweithwyr y cyngor<br>• adrannau a gweithwyr y llywodraeth ganolog<br>• landlordiaid a landlordiaid cymdeithasol<br>• cysylltiadau busnes neu gysylltiadau eraill |
| **Categorïau'r data** | Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei phrosesu yn berthnasol i'r gŵyn |

| | |
|---|---|
| **personol** | neu'r pryder, ac mae'n bosibl y bydd yn cynnwys:<br><br>• Manylion personol<br>• Amgylchiadau teuluol, ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol<br>• Gwybodaeth ariannol<br>• Gwybodaeth am addysg a chyflogaeth<br>• Gwybodaeth am eich sefyllfa o ran tai<br>• Manylion y gŵyn/pryder<br><br>Mae'n bosibl y bydda i'n prosesu data categori arbennig neu ddata am euogfarnau troseddol hefyd. Mae'n bosibl y bydd hyn yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i):<br><br>• Manylion iechyd corfforol neu iechyd meddwl<br>• Hil neu darddiad ethnig<br>• Troseddau gan gynnwys troseddau honedig ac ati. |
| **Categorïau'r derbynwyr y bydd y data personol yn cael ei ddatgelu iddyn nhw** | Fydd gwybodaeth dim ond yn cael ei rhannu os oes angen gwneud hynny, neu os yw hynny'n ofynnol mewn perthynas â'r pwrpas uchod. Bydd categorïau'r derbynwyr y bydd modd i mi rannu data personol â nhw yn amrywio yn dibynnu ar natur y broblem neu'r pryder. Mae'n bosibl y byddan nhw'n cynnwys, er enghraifft:<br><br>• Adrannau a gwasanaethau'r Cyngor<br>• Adrannau'r llywodraeth ganolog fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yr Adran Gwaith a Phensiynau<br>• Sefydliadau iechyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, Meddyg Teulu, Deintydd ac ati (os yw'ch problem yn gysylltiedig ag iechyd)<br>• Canolfan Cyngor ar Bopeth<br>• Asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chyrff ymchwilio fel yr Heddlu, y Gwasanaethau Prawf<br>• Eich landlord/cymdeithas dai ac ati. (e.e. os ydych chi'n byw mewn llety wedi'i rentu a bod eich problem yn ymwneud â'ch rhent/llety). |
| **Trosglwyddo data personol i drydedd wlad a mesurau diogelu** | Dydy gwybodaeth sy'n cael ei phrosesu at y pwrpas uchod ddim yn cael ei phrosesu dramor fel rheol.<br><br>Os bydd meddalwedd TG sy'n defnyddio system storio cwmwl neu dechnolegau lletyol lle mae data yn cael ei brosesu y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yn cael eu defnyddio, bydd y prosesu yma yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. |
| **Terfynau amser ar gyfer dileu** | Ddwy flynedd o'r dyddiad y daw'r mater i ben. |
| **Mesurau diogelwch technegol a sefydliadol** | Rwy'n cymryd mesurau diogelwch rhesymol i sicrhau bod data personol sy'n ymwneud â gwaith achos yn fy etholaeth yn cael ei |

| | |
|---|---|
| | ddiogelu rhag cael ei golli neu ei newid yn ddamweiniol, ei ddefnyddio'n amhriodol, ei ddwyn, neu rhag i rywrai gael mynediad amhriodol iddo. |